Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Taliadau Gwledig Cymru (RPW): Newidiadau Pwysig i wasanaethau prosiectau’r Rhaglen Datblygu Gwledig ar RPW Ar-lein

Diweddariad gwasanaeth diweddaraf ar Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG), Cynllun Buddsoddi Mewn Busnes Gwledig (RBIS) Bwyd a Datblygu Cadwyn Gyflenwi Cydweithredu Amaethyddiaeth (CSCD).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 26 Mawrth 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Chwefror 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-newidiadau-pwysig-i-wasanaethau-prosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-ar** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Y Gofrestr Wariant a Chofnodion Tendro Cystadleuol

Gofyn am newid prosiectau sydd wedi’u cymeradwyo (CSCD ac RBIS yn unig)

Ymholiadau am y Prosiect

Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-newidiadau-pwysig-i-wasanaethau-prosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-ar** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae’r newidiadau a ddisgrifir isod yn drech nag unrhyw gyngor sydd eisoes wedi’i roi.

## Y Gofrestr Wariant a Chofnodion Tendro Cystadleuol

Newidiadau Pwysig:

- Ar gyfer eitemau gwerth **llai na** £500, gallwch eu hawlio heb gyflwyno Cofnod Tendro Cystadleuol. Mae gwerth wedi’i bennu yn y contract ar gyfer pob categori o wariant, er mwyn ichi allu ei hawlio. I hawlio ar gyfer eitem o dan £500, darllenwch: **Ffurflen hawlio grantiau a thaliadau gwledig: defnyddio RPW ar-lein i wneud cais | LLYW.CYMRU**
- Ar gyfer eitemau gwerth **dros £500 ond llai na £5,000** sydd wedi’u cofnodi ar y Gofrestr Wariant, mae’r broses gymeradwyo wedi newid:
  - Bydd dal gofyn ichi gyflwyno Cofnod Tendro Cystadleuol er mwyn cael y gwariant wedi’i gymeradwyo
  - Ond **ni** fydd angen cyflwyno dogfennau ategol

Nid yw’r drefn ar gyfer eitemau dros £5,000 o wariant wedi newid. Daliwch ati i ddefnyddio’r Cofnod Tendro Cystadleuol ar gyfer pob eitem dros £5,000 a pharhewch i gyflwyno dogfennau ategol.

Nodwch rif adnabod y map o’r contract ar linell ‘Cyfeirnod yr Eitem’ eich Cofnod Tendro Cystadleuol.

Fe welwch y Cofnodion Tendro Cystadleuol ar y ddolen hon: **Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020: templed cofnod tendro cystadleuol a chaffael cyhoeddus**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-newidiadau-pwysig-i-wasanaethau-prosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-ar** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Diweddaru'r Contract

Caiff fersiwn newydd o'r contract ei greu os caiff newidiadau eu gwneud i fanylion y contract, gan gynnwys diweddariadau yn sgil cymeradwyo'r Cofnod Tendro Cystadleuol. Rhoddir gwybod ichi pan fydd contract newydd ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gan ddibynnu ar y newidiadau fydd wedi'u gwneud, efallai y bydd rhaid ichi dderbyn fersiwn newydd eich contract trwy bwyso'r Botwm Glas ar eich cyfrif ar-lein. Dim ond os oes angen ichi dderbyn y contract newydd y gwelwch y botwm glas. Rhestrir isod y mathau o newidiadau na fydd angen ichi eu derbyn a'r rhai y bydd yn rhaid ichi eu derbyn.

## Newidiadau i'r contract na fydd angen ichi eu derbyn

- Proffil Cyflawni newydd
- Newid gwerth eitem
- Ychwanegu is-eitemau ar ôl cymeradwyo'r Cofnod Tendr Cystadleuol
- Dileu neu newid is-eitemau
- Newidiadau i'r Costau wedi'u Symleiddio
- Newid beth sy'n gymwys am TAW

## Newidiadau i'r contract y bydd angen ichi eu derbyn a fyddai'n ganlyniad i gymeradwyo ailwerthusiad

- Ychwanegu neu ddileu eitem
- Newid cyfanswm gwerth y contract
- Newid Amodau Arbennig
- Newid y Proffil Cyflawni presennol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-newidiadau-pwysig-i-wasanaethau-prosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-ar** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Newid y Dangosyddion
- Newid Partneriaid y Prosiect
- Newid y dyddiad pan ddaw'r contract i ben
- Newid testun y contract neu'r eitemau
- Pan ofynnir am fersiwn newydd o'r contract

## Gofyn am newid prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo (CSCD ac RBIS yn unig)

Gyda llai nag 8 mis ar ôl i gyflawni amcanion y prosiect a chyflwyno'ch **hawliad terfynol, ac ar ôl cyflwyno'r trefniadau newydd ar gyfer cymeradwyo gwariant y prosiect, ni fydd angen ichi mwyach gyflwyno cais i newid y prosiect o dan yr amgylchiadau canlynol:**

- Symud gwariant cymeradwy'r prosiect rhwng penawdau gwariant. Yn hytrach, rhaid esbonio wrth hawlio os bydd y gwariant 15% yn fwy na'r gost gafodd ei chymeradwyo o dan y pennawd (atgoffir chi i wneud gan RPW Ar-lein)
- Lleihau costau'r prosiect/grant – adolygir hyn yn ystod yr ymweliad â'r safle
- Rhoi gwybod am newid i'r dangosyddion – fe'u hadolygir a'u cadarnhau yn ystod yr ymweliad â'r safle ac ar ddiwedd y prosiect

**Bydd dal gofyn cyflwyno cais i newid prosiect os ydych chi am:**

- Symud gwariant cymeradwy'r prosiect rhwng costau cyfalaf a refeniw
- Symud gwariant rhwng blynyddoedd ariannol
- Estyn dyddiad diwedd y prosiect
- Newid eich Costau wedi'u Symleiddio
- Newid y sefydliad sy'n darparu'r prosiect

### Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais i newid prosiect cymeradwy

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-newidiadau-pwysig-i-wasanaethau-prosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-ar** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**(ailwerthusiad) yw 31 Ionawr 2023. Ni dderbynnir ailwerthusiadau wedi hynny.**

I wneud cais i newid Prosiect, rhaid dilyn y broses hon:

- Cam 1 – llenwch Gais i Newid Prosiect ar eich cyfrif RPW Ar-lein i ddisgrifio'r newidiadau yr hoffech eu gwneud. Rhowch y rhif '10000' o dan 'rhif adnabod y cais' ar gyfer Prosiectau RPW Ar-lein.
- Cam 2 – pan fydd eich cais wedi'i brosesu, os bydd angen, gofynnir ichi lenwi Ffurflen Ailwerthuso Newid Prosiect ar eich cyfrif RPW Ar-lein. Unwaith eto, rhowch y rhif '10000' o dan 'rhif adnabod y cais' ar gyfer Prosiectau RPW Ar-lein.

Mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer gofyn am gael newid prosiect sydd wedi'i gymeradwyo, i'w gweld yma: **Y Rhaglen Datblygu Gwledig/EMFF Newid/ Ailwerthuso Prosiectau – Canllawiau ar Gwblhau Cais**

# Ymholiadau am y Prosiect

Os oes gennych ymholiadau, neu dystiolaeth ddogfennol i'w chyflwyno, anfonwch nhw i:

- Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW, neu
- Eich cyfrif RPW ar-lein

Os nad ydych yn gallu agor eich cyfrif RPW ar-lein, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar unwaith.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-newidiadau-pwysig-i-wasanaethau-prosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-ar** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Mae cysylltwyr **Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW** yn dal i weithio gartref. Gallai hynny effeithio ar gyflymder ein hymateb i rai ymholiadau.

Mae gwasanaeth ffôn y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn gweithio fel a ganlyn:

| Cyfnod | Oriau Agor |
|---|---|
| Llun – Gwener | 9:00am - 4:00pm |

Os medrwch, anfonwch eich ymholiadau neu geisiadau 'pob dydd' trwy'ch cyfrif RPW ar-lein sydd ar gael 24 awr y dydd.

## Amserau agor dros y Nadolig:

**Ni fydd y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn ateb galwadau ffôn rhwng 26 Rhagfyr a 2 Ionawr. Gall cwsmeriaid barhau i wneud ymholiadau trwy'u cyfrif RPW ar-lein dros y cyfnod hwn a byddwn yn eu hateb cyn gynted ag y medrwn.**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-newidiadau-pwysig-i-wasanaethau-prosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-ar** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.